



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Galluogi a Gofalu/ Cyfeillio**

**Cyngor Sir Ceredigion**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

18/02/2020

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Mae'r Gwasanaeth Galluogi a Gofalu/Cyfeillio yn cynnwys dau fath o ddarpariaeth gwasanaeth ar wahân, a'r unigolyn cyfrifol sef Judi O'Rourke sy'n gyfrifol am eu goruchwylio. Mae'r gwasanaeth Galluogi yn ceisio darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau personol ac ymarferol i oedolion sy'n byw gartref yng Ngheredigion am asmer cyfyngedig. Nod y gwasanaeth Cyfeillio/Gofalu yw ceisio cefnogi pobl (rhwng 0 a deunaw oed) sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth, a'u teuluoedd. Caiff hyn ei ddarparu gan wirfoddolwyr sy'n cael eu paru â phlant a'u teuluoedd. Ni does meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth hwn ac nid oes terfyn amser. Mae'r ddau rheolwr wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## **Crynodeb o'n canfyddiadau**

### **1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth trefnus a gaiff ei reoli'n dda ac sydd wedi'i ddarparu gan dîm gofalgar ac ymroddedig. Mae dwy ran wahanol y gwasanaeth hwn yn cael eu rhedeg yn dda er budd y bobl sy'n defnyddio'r cymorth. Mae prosesau cyfathrebu clir yn sicrhau y deöllir yr hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu a'r hyn na all ei ddarparu. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r ddarpariaeth galluogi a'r gwasanaeth cyfeillio yn cael budd o staff a gwirfoddolwyr gofalgar a chymwys sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae'r cyfathrebu rhwng y bobl a'r gwasanaethau yn allweddol i sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu mewn modd diogel ac effeithiol. Mae'r ethos o gefnogi, galluogi a hybu llesiant ac annibyniaeth yn ganolog i'r gwasanaethau hyn.

### **2. Gwelliannau**

Yr arolygiad hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### **3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi'r cam gweithredu y mae angen i ddarparwr y gwasanaeth ei gymryd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r argymhellion a'r gofynion cyfreithiol i wella safon y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl a'r plant.

# 1. Llesiant

## Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn gallu siarad drostynt eu hunain a chyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Caiff camau trylwyr eu dilyn cyn i'r gwasanaeth galluogi neu ofalu ddechrau. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol o'r hyn yr oedd yn ei ddarparu. Cafodd hyn ei esbonio yn ystod y cam asesu a thrwy roi canllaw i'r bobl ar y gwasanaeth, a oedd hefyd yn esbonio sut i godi pryder neu ganmol y gwasanaeth. Ymgynghorwyd yn rhagweithiol â'r bobl a/neu eu perthnasau ar y gofal a'r cymorth a ddarperir. Roeddent hefyd yn rhan o'r broses o adolygu'r gwasanaeth gofalu/cyfeillio er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio i bawb. Pennir nodau ar y cyd a chânt eu hadolygu'n rheolaidd ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth galluogi. Gwelsom fod y gwaith o hyrwyddo gwasanaethau eirioli yn cael ei gynnal. Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud dewisiadau a chaiff gwahanol ffyrdd o gyfathrebu eu parchu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu trin ag *urddas a pharch* gan y gweithwyr gofal bob amser. Disgrifiodd un perthynas y gweithwyr gofal fel *"a godsend, I don't know how we would have coped without them"*. Felly, caiff hawliau a hawliadau'r bobl eu hyrwyddo'n rhagweithiol yn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo iechyd a llesiant y bobl. Gwelsom dystiolaeth mewn dogfennaeth cynllunio gofal fod iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Nodwedd allweddol o'r gwasanaethau hyn yw'r dull gweithredu ar y cyd, integredig, a'r cyfathrebu gweithredol rhwng gwahanol weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Gwnaethom ddarllen adroddiadau gan wirfoddolwyr cyfeillio sy'n dangos yn glir bod camau gweithredu y mae gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol wedi'u cynghori yn cael eu cofnodi er mwyn cefnogi datblygiad y person ifanc. Mae cysylltiadau da yn cael eu cadw â gweithwyr proffesiynol. Roedd y cynlluniau personol yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi gan y gweithwyr gofal i wella eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi person i ddefnyddio ei wely, yn ogystal â chadair i gysgu. Roedd y perthnasau a'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth ac ansawdd y gweithwyr gofal yn gyson. Roedd sylwadau fel *"they are so kind, they are excellent"* yn cefnogi ein canfyddiadau. Mae'r bobl yn hapus, yn weithgar ac mor iach ag y gallant fod.

Mae systemau clir ar waith er mwyn diogelu'r bobl sy'n agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Gwelsom fod risgiau'n cael eu nodi fel rhan o'r broses asesu gychwynnol ac roeddent wedi'u dogfennu'n glir. Roedd yr asesiadau hyn yn adlewyrchu'r risgiau i'r unigolion yn gywir ac roeddent yn cael eu hadolygu wrth ymgynghori'n agos â'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol priodol. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion a phlant. Dangosodd y gweithwyr gofal wybodaeth dda am y broses ddiogelu. Roeddent hefyd yn cael digon o gefnogaeth gan y rheolwyr i sicrhau bod gweithdrefnau o'r fath yn cael eu dilyn. Caiff gweithdrefnau recriwtio trylwyr eu dilyn. Roedd

y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn teimlo'n ddiogel gyda'r gweithwyr gofal a oedd yn darparu eu gofal a'u cymorth. Roedd y sylwadau a ddarllenom yn cynnwys *"I feel safe and secure with my sitters and Mum feels confident in leaving me"* a oedd yn cefnogi ein canfyddiadau. Felly, mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r risgiau i'w hiechyd a'u llesiant yn cael eu lleihau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ac yn mwynhau bod yn rhan o'u cymuned. Roedd y cofnodion a ddarllenom yn dangos bod y plant yn mwynhau gweithgareddau yn eu cartrefi yn ogystal â chael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel nofio, marchogaeth, siopa a discos. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth galluogi yn cael eu cyfeirio at wybodaeth am y canolfannau dydd, Age Cymru ac elusennau eraill sy'n cynnig cymorth i gymryd rhan yn y gymuned. Felly, rydym o'r farn bod y gwasanaeth yn sicrhau llesiant drwy alluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, cymdeithasol a chymunedol.

Gall y bobl gael cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac roedd y staff yn gallu cefnogi dewisiadau iaith gyntaf ac ethnigrwydd y bobl. Mae Cyngor Ceredigion yn cefnogi ac yn hyrwyddo dysgu Cymraeg. Mae dogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Rydym o'r farn bod y gwasanaeth yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff ymroddedig sy'n adnabod y bobl yn dda. Caiff gofalwyr eu cyflwyno i'r plant gan ddefnyddio proses 'paru' sydd hefyd yn ystyried aelodau eraill o'r teulu. Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar waith, maent wedi'u personoli ac mae'r gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd hanes y bobl, eu dewisiadau o ran trefn ddyddiol a'r nodau a osodwyd ar y dechrau yn fanwl. Mae gwybodaeth fel *sut rydych yn gwybod sut rwy'n teimlo* wedi'i nodi'n glir mewn canllaw sy'n hawdd ei dilyn. Roedd y cofnodion y gwnaethom eu darllen yn dangos gwybodaeth am y person a oedd yn cael ei gefnogi. Roedd y nodiadau yn cefnogi'r nodau a osodwyd gan ysgolion neu weithwyr iechyd proffesiynol ac yn darparu tystiolaeth o gynnydd tuag at gyrhaeddiad. Lle y bo modd, gwelsom fod y bobl yn llofnodi eu cynlluniau gofal a'u hadolygiadau i ddangos partneriaeth mewn gofal a chyfathrebu da. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r newid o'r dull traddodiadol o ofal i'r dull galluogi yn arbennig, *"we don't do for any more, we do alongside, and that is so rewarding seeing people getting better."* Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael dewisiadau dyddiol a'u bod yn gallu dylanwadu ar eu gofal. Roedd y teuluoedd yn hoffi hyblygrwydd y gwasanaeth gofalu yn arbennig, a'r gallu i wneud trefniadau â'r gofalwr sydd wedi'i baru yn uniongyrchol. Down i'r casgliad bod y plant a'r oedolion yn cael budd o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion unigol.

Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r gwasanaeth cyfeillio a gofalu yn ymwybodol iawn o ymrwymiad hirdymor posibl y gwasanaeth. O ganlyniad, mae pwysigrwydd cyfathrebu da a deall disgwyliadau yn allweddol i lwyddiant a sefydlogrwydd y gydberthynas. Caiff hyn ei gyflawni – gwnaethom nodi parhad y gwasanaeth a'r camau i sicrhau pontio didrafferth ar ôl 18 oed. Roedd yr adborth a gawsom ac a ddarllenom yn dangos bod y teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cymorth a geir yn fawr. Roedd y sylwadau a ddarllenom gan y plant yn cynnwys *"I like (y gofalwyr) because she's nice. I love talking to her."* Mae cyfathrebu da hefyd yn hanfodol er mwyn rhedeg yn ddidrafferth a sicrhau dealltwriaeth ar y cyd am y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y tîm galluogi. Dywedwyd wrthym *"triage is key"* ac mae'r gwasanaeth yn gallu cysylltu neu gyfeirio'r bobl at wasanaethau eraill sydd ar gael fel mynd i'r ganolfan ddydd i osgoi ynysu cymdeithasol neu asiantaethau eraill i gefnogi gyda tasgau cadw tŷ. Caiff nodiadau dyddiol eu cadw yng nghartref y person a chaiff system ar-lein ei diweddarau, lle y gall gofalwyr hefyd dynnu sylw at ddigwyddiadau arwyddocaol. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol yn y broses adolygu rheolaidd. Mae'r gwasanaeth galluogi, er bod cyfyngaid amser ynghlwm ag ef, yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal nes y gall gwasanaethau gofal eraill ddiwallu anghenion gofal yn y dyfodol.

### 3. Arwain a Rheoli

#### Ein canfyddiadau

Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth yn disgrifio'n gywir yr hyn mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Roedd ar gael i'r bobl a oedd yn gofyn amdano. Mae gan bob person sy'n defnyddio'r gwasanaethau wybodaeth am y gwasanaeth, a gwybodaeth gan Dîm Plant Anabl Ceredigion. Mae'r rhain yn rhoi manylion am yr hyn y gellid ei ddisgwyl gan y gwasanaeth yn ogystal â manylion cyswllt y swyddfeydd a manylion am y broses gwyno pe byddai angen ei defnyddio. Nid oedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wedi cael rheswm dros wneud cwyn, a gwnaethant ddweud wrthym pe bai ganddynt unrhyw bryderon, y byddent yn hyderus y gallai'r tîm rheoli fynd i'r afael. Er bod gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau clir ar gyfer y gwaith o oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth galluogi, nid dyma'r achos ar hyn o bryd o ran y gwasanaeth gofalu. Mae hyn wedi cael ei egluro i'r unigolyn cyfrifol, ac mae AGC yn fodlon y bydd y sefyllfa'n cael ei hunioni er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni ar gyfer pob unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan dîm o staff sy'n cael eu recriwtio'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar ffeiliau pump aelod o'r staff a gwelsom fod gwybodaeth am recriwtio'r staff yn cael ei chadw yn eu ffeiliau. Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi'u cynnal er mwyn diogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ynghyd â chofnodion o'r broses o wneud penderfyniadau wrth benodi. Gwelsom fod yr un dull trylwyr ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr. Caiff yr holl wirfoddolwyr eu hasesu a'u harchwilio gan banel maethu'r awdurdod lleol a chaiff y penderfyniad terfynol ei wneud o ran eu haddasrwydd gan reolwr y gwasanaethau plant. Mae hyn yn golygu y caiff camau priodol eu cymryd i ddiogelu'r bobl.

Caiff yr hyfforddiant sydd ei angen ar y staff ei nodi a'i ddarparu. Edrychom ar gofnodion hyfforddiant a gwelsom fod y staff a'r gwirfoddolwyr yn mynychu amrywiaeth o hyfforddiant ym maes pynciau fel iechyd a diogelwch, symud a chodi a chario, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, rheoli heintiau ac ymwybyddiaeth o ddementia. Mae gan y gwirfoddolwyr bellach fynediad i'r system dysgu ar-lein. Rhoddir hyfforddiant pwrpasol er mwyn sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn gymwys o ran y cymorth maent yn ei ddarparu. Roedd y staff a'r gwirfoddolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael y cymorth a'r hyfforddiant cywir, *"good to know there is support at the end of the phone when need."* Mae sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal i'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r gwasanaethau. Mae'r gwirfoddolwyr a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu gan dimau rheoli'r ddau wasanaeth. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod ganddynt gydberthnasau da â'u harweinwyr tîm a'r rheolwr. Gwnaethom siarad â'r staff a'r gwirfoddolwyr a ddywedodd wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo ei fod yn werth chweil. Rydym o'r farn bod y bobl yn cael eu cefnogi gan dîm ymroddedig sydd, yn eu tro, yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli ymroddgar.

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth trefnus sy'n ceisio gwella'n barhaus. Roedd trafodaethau â'r ddau dîm a oedd yn arwain y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad i'r Deddf Llesiant Cymdeithasol ac yn rhoi llesiant y bobl wrth wraidd eu gwaith. Darllenom yr adroddiad sicrhau ansawdd diweddaraf ar gyfer y gwasanaeth (2018-19.) Gwelsom y gofynnwyd am adborth gan y gwirfoddolwyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd yr ymatebion yn hynod gadarnhaol. Mae holiaduron wedi cael eu dosbarthu i gasglu barn ar gyfer yr adroddiad nesaf. Mae gwahanol fathau o ddulliau cyfathrebu yn cael eu defnyddio; gwelsom fod symbolau 'wynebaw hapus' yn cael eu defnyddio. Daw adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth galluogi i law yn aml, a gweithredir ar yr adborth hwn oherwydd natur tymor byr y modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r rheolwr wedi ymchwilio i brosiect i edrych ar ffyrdd o hyrwyddo annibyniaeth yn gynt ac wedi ei ddarparu. Mae hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid. Mae'r gwasanaeth yn cael ei archwilio i sicrhau ei ansawdd. Mae'r gwasanaeth cyfeillio yn chwarae rhan weithgar wrth gefnogi gwaith prosiect fel clybiau ieuenctid, syrffio, a gweithgareddau yn yr awyr agored, a'r gobaith yw y bydd hyn yn denu mwy o ymwelwyr. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i syniadau i weithio gyda'r brifysgol leol a'r coleg lleol i gefnogi gwaith prosiect. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi ein casgliad bod y gwasanaethau yn ddynamig ac yn chwilio am ffyrdd arloesol o wella llesiant y bobl.



#### **4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn**

##### **4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol**

Dim

##### **4.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn**

Rheoliad 8. Mae'n rhaid bod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn parhau i oruchwylio'r gwasanaeth cyfeillio a gofalu.

Ni wnaethom gyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio y tro hwn gan y rhoddwyd sicrwydd i ni y cymerir camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd a rheoli unrhyw risgiau posibl.

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Cynhaliwyd yr arolygiad dros ddeuddydd. Diwrnod un ar 18 Chwefror 2020 rhwng 09:30 a.m. a 16:00 p.m. Yna ail ddiwrnod ar 11 Mawrth 2019 rhwng 9:30am ac 14:30pm.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom ystyried adroddiad ailgofrestru RISCA (Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016), y Datganiad o Ddiben a'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal cyn yr arolygiad.
- Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol a'r timau rheoli.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion gan gynnwys cofnodion gofal y bobl.
- Gwnaethom edrych ar bum ffeil y staff; cofnodion goruchwyllo ac arfarnu a chofnodion hyfforddiant.
- Gwnaethom edrych ar bolisiâu a gweithdrefnau gan gynnwys y polisiâu diogelu a chwythu'r chwiban a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Gwnaethom ymweld a siarad â dau unigolyn sy'n cael y gwasanaeth, tri pherthynas, a thri aelod o'r staff.
- Gwnaethom roi adborth i'r unigolyn cyfrifol / rheolwr ar ôl cwblhau'r arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

<b>Y math o ofal a ddarperir</b>	<b>Gwasanaeth Cymorth Cartref</b>
<b>Darparwr y Gwasanaeth</b>	<b>Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd</b>
<b>Unigolyn Cyfrifol</b>	<b>Judi O'Rourke</b>
<b>Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru</b>	<b>Gwanwyn 2017 (Galluogi) a Hydref 2017 (Gwasanaeth cyfeillio a gofalu)</b>
<b>Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn</b>	<b>18 Chwefror a 11 Mawrth 2020</b>
<b>Iaith weithredol y gwasanaeth</b>	<b>Y ddwy</b>
<b>A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?</b>	<b>Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.</b>
<b>Gwybodaeth Ychwanegol:</b>	

Dyddiad Cyhoeddi 29/07/2020